## Y Gwas Dioddefus

**Darllen Eseia 53**

**Myfyrdod**

Yr oedd yr ymadrodd 'gwas Iawe' ar arfer ymhlith yr Israeliaid wrth sôn am unrhyw ddyn a ymroddai i wasanaethu pwrpas Duw mewn hanes. Yng nghaniadau'r Gwas yn yr Ail Eseia y mae'r Gwas weithiau'n cynrychioli Israel, weithiau'n cyfeirio at ryw ddosbarth o bobl oddi mewn i Israel, weithiau'n awgrymu un o arwyr ffydd y genedl, weithiau'n darlunio'r Meseia neu'r proffwyd tebyg i Foses a ddisgwylid gan rai o'r Iddewon. Teg yw tybio (er bod rhai o'r 'beirniaid ffurf' yn gwrthod hyn) fod Caniadau'r Gwas yn rhan o ymwybod Iesu a bod ei brofiad adeg ei fedyddio gan Ioan yn adlewyrchu ymgysegriad y Gwas. Mae'r frawddeg, 'Tydi yw fy annwyl fab yn yr hwn y'm bodlonwyd' (Marc 1:11) yn adleisio un o'r caniadau (Eseia 53:1). Ond y mae derbyn hyn fel allwedd i feddwl Iesu ymhell o brofi ei fod yn ymgymryd â chenhadaeth swyddogol a breiniol Gwas yr Arglwydd i gyflawni proffwydoliaeth a chwarae rhan dyngedfennol mewn hanes. Fe roddai Iesu ei hun i fod yn 'was i bawb', heb honni dim hyd yn oed yn ei fyfyrdod mewnol mai efe oedd y Gwas. Ei unig gymhelliad oedd gwneuthur gwaith y Tydi a adwaenai'n Dad.

Y mae Fuller yn rhy anhyblyg yn ei ddadl nad oedd Iesu'n gwneud ei waith yng ngolau'r Gwas Dioddefus yn Eseia 53. Gan fod Caniadau'r Gwas mor berthnasol i'w brofiad a'i benderfyniad y mae'n rhaid ei fod yn ymbaratoi i dderbyn dioddefaint arteithiol, gwrthodiad, gwarth y Groes... Mae ffordd y Gwas yn arwain trwy lyn cysgod angau i'r lleufer anniffodd: megis y mentrodd Vernon Lewis gyfieithu un frawddeg feichiog yn yr enwocaf o Ganiadau'r Gwas (Eseia 53:11), 'O lafur ei enaid y gwêl oleuni'.

***Pennar Davies***